

Lleoedd Lleol ar gyfer Natur - Cymru

Cynllun grant cyfalaf gyda'r bwriad o alluogi cymunedau yng Nghymru i adfer a gwella natur.

Diweddarwyd ddiwethaf: 13 Chwefror 2024.

Ai dyma'r dewis rhaglen gorau i chi?

- A yw eich sefydliad yn awyddus i gaffael, adfer a gwella natur yng Nghymru?
- A fydd eich prosiect yn trawsnewid natur lle mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn treulio eu hamser hamdden?
- A oes angen grant arnoch hyd at £250,000?
- Ydych chi'n sefydliad dielw?
- A fydd eich prosiect yn digwydd mewn ardal o amddifadedd o gwmpas trefi neu mewn trefi?

Neu gall y prosiect fod YN UNRHYW LE yng Nghymru:

- os ydych yn cynnig prosiect tyfu bwyd cymunedol, neu
- mae eich sefydliad/gr?p yn cynrychioli cymuned ethnig amrywiol

Os mai ydw oedd eich ateb i'r cwestiynau hyn, yna mae'r cynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ar eich cyfer chi.

Trosolwg

Mae Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn gynllun grant cyfalaf a fwriedir i alluogi ardaloedd o amddifadedd uchaf, cymunedau trefol/amdrefol a/neu'r rhai sydd â'r lleiaf o fynediad at natur yng Nghymru i adfer a gwella natur 'ar garreg eich drws'. Gellir ariannu rhai mathau o brosiectau yn unrhyw le yng Nghymru - gweler isod:

Mae'r cyllid hwn yn bennaf ar gyfer:

- prosiectau sydd wedi'u lleoli neu sy'n gwasanaethu anghenion cymunedau yn yr 50% o ardaloedd mwyaf difreintiedig **NEU**
- prosiectau tyfu bwyd cymunedol yn unrhyw le yng Nghymru **NEU**
- sefydliadau/grwpiau sy'n cynrychioli cymunedau pobl ddu, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig o unrhyw ran o Gymru

Fodd bynnag, os yw ardal y prosiect yn dod o fewn y 50% LLEIAF difreintiedig o ardaloedd, efallai y byddwch yn dal i allu gwneud cais am gyllid, yn enwedig os bydd eich prosiect yn cynyddu cyfranogiad ystod ehangach o bobl mewn treftadaeth naturiol a/neu os oes angen penodol ar y rhai y mae'r prosiect yn effeithio arnynt. Anfonwch [e-bost](#) atom gyda chrynodeb, gan gynnwys cod post safle'r prosiect, fel y gallwn roi cyngor pellach i chi.

Natur yw ein hased mwyaf, ond mae o dan fygythiad. Rydym yn cynnig dwy lefel o grant.

1. £10,000–£100,000 ar gyfer prosiectau cyfalaf a fydd yn caffael, adfer a gwella natur mewn ardaloedd difreintiedig. £100,000-£250,000.
2. Rydym yn cynnig nifer cyfyngedig o grantiau hyd at £250,000. Mae gennym ddiddordeb arbennig os yw eich prosiect wedi'i leoli yn un o'r 50% o gymunedau mwyaf difreintiedig neu'n agos at hynny neu os ydych yn ymgysylltu ag angen penodol. Mesurir amddifadedd gan ddefnyddio'r mesur amddifadedd cyffredinol ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Defnyddiwch eich cod post i wirio eich cymhwysedd yn erbyn y mesur amddifadedd cyffredinol gan ddefnyddio'r [map rhyngweithiol yma](#).

Os ydych yn ceisio grant rhwng £100,000 a £250,000 anfonwch e-bost at natur@heritagefund.org.uk cyn bwrw ymlaen ymhellach â'r broses ond parhewch i ddarllen y meini prawf grant hyn.

Rydym yn chwilio'n benodol am brosiectau y gellir eu gweld "o garreg eich drws". Mae hyn yn golygu lle mae pobl yn byw, gweithio, cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus, teithio a threulio eu hamser hamdden.

Natur ariannu yw ein blaenoriaeth ar y cyd

Natur yw ein ffurf hynaf o dreftadaeth. Ni fu gofalu am natur a helpu pobl i ddeall ei bwysigrwydd erioed yn fwy perthnasol. Mae'r angen i gynorthwyo adferiad natur yn fater brys.

Dyna pam mae [ariannu tirweddau a natur](#) yn flaenoriaeth ariannu strategol i Lywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Ewch i'n [gwasanaeth ar-lein](#) i wneud cais nawr a gwiriwch yr adrannau 'sut i wneud cais' isod.

Expand All accordions

Beth fydd y cynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn ei gynnig

- arian grant ar gyfer prosiectau natur gwerth hyd at £250,000. Mewn rhai amgylchiadau gallwn ariannu hyd at £100,000 ond trafodwch hyn gyda ni cyn gwneud cais.
- hyd at 100% o gyllid
- cyllid ar gyfer sefydliadau dielw (statudol a thrydydd sector) gyda chyfrif banc a chyfansoddiad
- cyngor cyn ymgeisio drwy lenwi Ffurflen Ymholiadau Prosiect ar ein [porth ymgeisio](#)

Gofynion

- mae'n rhaid i brosiectau allu cynnal yr ased yn y tymor hir a darparu cynllun cynnal a chadw fel dogfen ategol i unrhyw gais am gyllid
- ni ellir defnyddio cyllid ar gyfer cost rhedeg sefydliadau na chostau cynnal a chadw rheolaidd asedau sy'n bodoli eisoes

Ariennir y rhaglen ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Mae'n rhan o **Lleoedd Lleol ar gyfer Natur**, menter sy'n ceisio adfer a gwella natur ledled Cymru.

Expand All accordions

Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau a dyddiadau allweddol

Mae nifer o rowndiau'r Gronfa Cyfalaf Lleol Lleoedd ar gyfer Natur ar y gweill.

- dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 12 canol dydd ar 12 Mawrth 2024
 - gwneir y penderfyniad: Diwedd Mai
 - dyddiad cwblhau eich prosiect: 30 Mehefin 2025
-
- dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 12 canol dydd ar 22 Gorffennaf 2024
 - gwneir y penderfyniad: Diwedd Medi
 - dyddiad cwblhau eich prosiect: 8 Ionawr 2026

Expand All accordions

Atal, Tyfu, Newid ar gyfer Twf Amgylcheddol – yr hyn rydym yn ei ddisgwyl gan brosiectau

Ymrwymiad y Prif Weinidog i'r Camau Gweithredu Lleoedd Lleol ar gyfer Natur sy'n cael effaith yn lleol

Mae maniffesto Prif Weinidog Cymru yn ymrwmo i atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn natur ac i dyfu'r amgylchedd er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Bydd Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn galluogi pobl i weld gwelliannau i'r amgylchedd naturiol 'o'u stepen drws'. Mae hyn yn cynnwys gweithgarwch a arweinir gan y gymuned a gwarchod lleoedd bob dydd yr ydym i gyd yn eu caru.

Mae'r cwmpas ar gyfer Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn eang ac rydym yn bwriadu iddo gael ei bennu'n lleol. Ond mae'n rhaid iddo gynnwys o leiaf un o'r Camau Gweithredu Lleoedd Lleol ar

gyfer Natur:

1. Cynyddu plannu blodau gwyllt i greu safleoedd cynefinoedd pryfed peillio
2. Creu cynefin bywyd gwyllt mewn gorsaf reilffordd neu gyfnewidfa drafnidiaeth
3. Creu neu adfer perllan gymunedol
4. Creu neu adfer gerddi synhwyrdd at ddibenion therapiwtig mewn lleoliadau gofal iechyd (GIG neu elusennau yn unig)
5. Cynyddu plannu coed lleol gan gynnwys coed stryd, perllannau a choetiroedd bach gan gynnwys coedwigoedd bach
6. Cynyddu cyfleoedd tyfu bwyd yn y gymuned gan gynnwys darparu rhandiroedd ym mhob rhan o Gymru

Efallai nad y Camau Gweithredu Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yw'r ffocws na'r rheswm dros y prosiect, ond dylid eu hymgorffori i sicrhau mwy o werth a budd.

Bydd diffiniadau manylach o'r hyn sy'n gyfystyr â Gweithred Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn cael eu hanfon at bob ymgeisydd posib pan fyddwn yn ymateb i ymholiadau.

Efallai y bydd prosiectau'n bwriadu:

Atal y dirywiad mewn natur:

- atal a gwrthdroi effaith negyddol arferion hanesyddol ac adfer cynefin ar dir, mewn afonydd, nentydd a phyllau lleol ac yn yr amgylchedd morol
- lleihau'r defnydd o blaladdwyr, gwrteithiau a chompost sy'n seiliedig ar fawn
- lleihau llygredd d'r
- newid arferion torri gwair
- cael gwared ar rywogaethau goresgynnol ac anfrodorol a bygythiadau eraill i natur
- gwella rheoleiddio a draenio d'r

Tyfu natur:

- cynyddu nifer a graddau'r 'lleoedd ar gyfer natur'
- creu dolydd blodau gwyllt a lleoedd ar gyfer pryfed peillio
- cynyddu digonedd o rywogaethau
- datblygu rhwydweithiau ecolegol gwydn, coridorau gwyrdd a darnau bywyd gwyllt
- cynyddu perllannau cymunedol, gallu ac argaeledd tyfu cymunedol, rhandiroedd
- annog natur ar ystâd y sector cyhoeddus – er enghraifft adeiladau cyhoeddus, manau cyhoeddus, gerddi cymunedol ac asedau cyhoeddus eraill
- cynyddu neu greu manau gwyrdd trefol, coed stryd, seilwaith gwyrdd trefol a thoeau gwyrdd
- cynyddu bioamrywiaeth – er enghraifft drwy: helpu pryfed peillio, gwrychoedd, dolydd ac ymylon sy'n llawn blodau, coetiroedd a thrwy greu dolydd ar dir llethrog

Newid arferion:

- annog a dileu rhwystrau i 'wneud y peth iawn'

- newid defnydd tir i hyrwyddo natur, adfer cynefinoedd, newid gallu ardal ar gyfer gwanhau llifogydd neu dd?r wyneb
- gwella ansawdd pridd a d?r
- cynyddu mynediad diogel i dd?r yfed (gorsafoedd ail-lenwi/ffynhonnau d?r)
- gwella ansawdd aer/tynnu llygryddion
- defnyddio seilwaith gwyrdd i leihau llifogydd neu wella argaeledd d?r
- caffael, adfer a gwella natur yn ein trefi a'n dinasoedd ac yn yr amgylchedd morol

Sylwch mai dim ond ychydig o syniadau ar gyfer gweithredu yw'r rhain. Rydym yn annog prosiectau i fod yn arloesol.

Gellid cefnogi llawer o brosiectau ar lefel leol ond gellir ystyried rhai prosiectau ar raddfa tirwedd.

Expand All accordions

Prynu tir

Gallwn ariannu prosiectau sy'n cynnwys prynu tir sydd (neu a fydd) yn bwysig fel lleoedd lleol ar gyfer natur, ac sydd ar werth y farchnad neu'n is na hynny.

Rhaid i'r prif resymau dros brynu fod o fudd i adfer a gwella natur yn y tymor hir ac i greu mannau gwyrdd sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

Os ydych eisoed yn rheoli'r tir a/neu'r adeiladau yr ydych am eu prynu, bydd angen i chi ddangos i ni pa fanteision ychwanegol a ddaw yn sgil y pryniant.

Bydd angen i chi ddangos bod yr holl opsiynau ar gyfer ymrwymo i gytundeb rheoli priodol gyda pherchennog y rhydd-ddaliad wedi'u harchwilio cyn gofyn am grant i'w brynu.

Gallwn eich helpu i brynu tir os byddwch yn dangos yn eich ffurflen gais:

- yr arwyddocâd i natur yn lleol, ranbarthol neu genedlaethol, nawr neu, unwaith y bydd y prosiect wedi'i gwblhau.
- mae'n amlwg bod angen prynu.
- sut y caiff natur ei hadfer a/neu ei gwella o ganlyniad i'ch pryniant ac y bydd o leiaf un o'r mesurau cymedrol yn cael ei gyflawni o ganlyniad.
- bydd unrhyw newidiadau a wnewch i'r tir yn dilyn yr egwyddor 'gwneud dim niwed' ar gyfer natur.
- gellir cynnwys strwythurau presennol a wnaed gan ddyn yn eich cynnig, ar yr amod eu bod yn cyfrannu at greu lle ar gyfer natur (e.e. drwy ddymchwel neu gadw).
- eich bod wedi trafod eich cynnig gyda'r Bartneriaeth Natur Leol.
- bydd y pryniant yn cyfrannu at fwy o bobl yn ymgysylltu â natur.
- mae'r pris yn adlewyrchu'r cyflwr a'r gwerth yn gywir.
- mae gennych y gallu a'r arbenigedd i brynu'r tir ac i adfer a gwella natur.
- mae gennych gynlluniau a chapasiti digonol ar gyfer rheoli a chynnal a chadw asedau naturiol dros gyfnod o 10 mlynedd o leiaf ar ôl cwblhau'r prosiect.

Rhaid i brosiectau sy'n ymwneud â chaffael tir ddangos gwerth da am arian, cael eu cynllunio'n dda arddangos ei fod yn diwallu anghenion a nodwyd gan y gymuned. Ni fyddwn yn cefnogi pryniannau sydd, yn ein barn ni, yn uwch na gwerth y farchnad.

Os byddwn yn dyfarnu grant i chi, efallai y bydd angen tâl arnom ar y tir a/neu'r adeiladau. Gallwn ariannu'r holl gostau prynu cysylltiedig megis ffioedd asiantau, ffioedd ystafelloedd gwerthu a threthi. Sicrhewch fod y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn eich tabl costau.

Os yw eich prosiect yn cynnwys prynu eitem, tir neu adeilad treftadaeth, bydd telerau'r grant yn para am gyfnod amhenodol. Os hoffech gael gwared ar yr hyn yr ydych wedi'i brynu yn y dyfodol, gallwch ofyn am ein caniatâd. Efallai y byddwn yn hawlio ein grant yn ôl.

Y wybodaeth sydd ei hangen arnom am y pryniant:

- cynllun lleoliad i'w raddfa, gan nodi'n glir faint o dir neu adeilad sydd i'w brynu ac unrhyw fynediad perthnasol i'r tir a'r adeilad.
- statws presennol y tir, ei gyflwr amgylcheddol presennol, ac asesiad o effaith eich cynlluniau.
- y cynllun i adfer a gwella natur a'r budd disgwylidiedig i natur y pryniant.
- un prisiad annibynnol. Dylai hyn gynnwys esboniad manwl o sut y daethpwyd i'r asesiad o werth y farchnad. Rydym yn croesawu prisiadau gan y Gwerthwr Dosbarth. Efallai y byddwn hefyd yn trefnu ein prisiad ein hunain. Byddwn fel arfer yn barod i gefnogi pryniant ar ffigur hyd at 10% yn uwch na brig unrhyw ystod mewn prisiad derbyniol
- tystiolaeth mai'r perchnogion presennol yw'r perchnogion (sydd â theitl cyfreithiol) a bod ganddynt yr hawl i werthu'r tir a/neu adeiladu a throsglwyddo'r teitl i'r perchennog newydd; a thystiolaeth o unrhyw gyfamodau cyfreithiol, neu hawliau (fel pysgota, saethu, mwynau, draenio), neu denantiaethau tymor hir neu dymor byr, neu hawliau tramwy neu fynediad, neu unrhyw fuddiannau eraill sydd ynghlwm wrth y tir neu'r adeilad

Prydlesu tir

Mae'r rhan fwyaf o'r cynllun grant yma (85%) yn cynnwys cyfalaf. Ni ellir defnyddio arian cyfalaf i brydlesu tir felly mae unrhyw gynnig sy'n cynnwys tir prydlesu yn debygol o fod yn anghymwys i gael arian.

Expand All accordions

Lesio tir

Mae mwyafrif y cynllun grant hwn (85%) yn ariannu cyfalaf. Ni ellir defnyddio ariannu cyfalaf i lesio tir, felly mae unrhyw gais sy'n cynnwys lesio tir yn annhebygol o fod yn gymwys i gael ei ariannu.

Expand All accordions

Paratoi eich cais

Mae'n bwysig eich bod yn meddwl sut y bydd eich prosiect yn bodloni gofynion y cynllun grant yma.

Mae'n rhaid i'ch prosiect fodloni un o'r 4 disgrifiad canlynol:

1. Naill ai'n bodloni'r gofyniad i fod mewn ardal drefol neu ger tref, ardal o amddifadedd a/neu ardal sydd â mynediad cyfyngedig i fannau gwyrdd
2. NEU gynyddu cyfranogiad ystod ehangach o bobl mewn treftadaeth naturiol yn sylweddol
3. NEU Yn sefydliad sy'n cynrychioli cymuned Pobl Dduon, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig
4. NEU os ydych am gyflwyno prosiect tyfu bwyd cymunedol yn unrhyw le yng Nghymru

Mae'n rhaid i'ch prosiect:

- bodloni'r gofyniad i fod mewn ardal drefol neu ar gyrion trefi, ardal o amddifadedd a/neu ardal sydd â mynediad cyfyngedig i fannau gwyrdd **A/NEU** gynyddu cyfranogiad ystod ehangach o bobl mewn treftadaeth naturiol yn sylweddol.
- caffael, adfer neu wella natur
- darparu natur y gellir ei gweld "o garreg eich drws"
- darparu ased cyfalaf sydd â chynllun ar gyfer cynnal a chadw yn y dyfodol
- ganddynt gynllun ar gyfer gweithgarwch lleol, wedi'i gynllunio a'i arwain gan gymunedau. Galluogi cyfranogiad ar gyfer ystod ehangach o bobl; eu helpu i brofi a gwerthfawrogi natur, gan arwain at weithredu unigolion a chymunedol i ddiogelu a gwella natur.
- dangos manteision lluosog ychwanegol sy'n rhychwantu llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol
- deall a gwella bioamrywiaeth bresennol y safle dan sylw
- dilyn canllawiau derbyniol ar fioamrywiaeth a bioddiogelwch er enghraifft defnyddio planhigion lleol, osgoi rhywogaethau anffodrol, goresgynnol, gwrteithiau, plaladdwyr a defnyddio deunyddiau mawn

Dogfennau ategol

Mae'n rhaid i'r dogfennau ategol a ganlyn gael eu huwchlwytho gyda'ch ffurflen gais. Dylai maint y ffeiliau fod yn llai na 20MB. **Noder** bod rhai o'r dogfennau ategol sydd eu hangen ar gyfer y rhaglen hon yn wahanol i'r rhai a nodir yn y ffurflen gais ar-lein.

Ar gyfer y rhaglen hon, mae angen y dogfennau canlynol arnom:

- dogfen lywodraethu (gorfodol os oes gan eich sefydliad un o'r rhain)
- Cyfrifon wedi'u harchwilio neu eu dilysu (gorfodol os ydych yn sefydliad). Os ydych yn unigolyn, yn sefydliad sydd newydd ei ffurfio neu os nad oes gennych gyfrifon sy'n llai na 12 mis oed, bydd angen i ni weld cyfriflenni banc yn yr un enw â'ch cais am y tri mis llawn diwethaf.
- cynllun prosiect (gorfodol ar gyfer pob prosiect) - [gallwch lawrlwytho templed o'n tudalen cynllun prosiect](#)
- dangosyddion perfformiad (gorfodol ar gyfer pob prosiect) – darllenwch esboniad o'r gofynion hyn yn yr adran dangosyddion perfformiad isod
- cytundeb partneriaeth (gorfodol os ydych yn gweithio mewn partneriaeth)

- disgrifiadau swydd (gorfodol os ydych yn creu swyddi neu brentisiaethau newydd fel rhan o'ch prosiect)
- cynllun cynnal a chadw (gorfodol ar gyfer pob prosiect)
- briffiau ar gyfer gwaith a gomisiynir (os yn berthnasol)?
- cyfrifo adennill costau llawn (os yn berthnasol)?
- tystiolaeth o gefnogaeth, megis llythyrau, e-byst neu fideos cefnogol (dewisol)

Yr Iaith Gymraeg

Mae'n rhaid i chi ystyried y Gymraeg ym mhob agwedd ar eich gwaith a dweud wrthym sut y byddwch yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r Gymraeg ac yn adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru. Bydd angen i chi ddangos sut y byddwch yn cynnig darpariaeth ddwyieithog yng nghyllideb a chynllun eich prosiect. Dylech gynnwys y gyllideb ar gyfer cyfieithu o dan y categori costau 'Arall' yn adran costau prosiect y ffurflen gais. Os hoffech ragor o wybodaeth ar sut i fod yn ddwyieithog cysylltwch â cymorthcymraeg@heritagefund.org.uk

Cydnabyddiaeth

Bydd angen i chi gydnabod eich grant fel y nodir yng nghanllawiau [Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol](#) a chanllawiau Llywodraeth Cymru

Expand All accordions

Beth allwch chi wario'r arian arno

Mae gwariant cyfalaf yn arian sy'n cael ei wario ar fuddsoddi a phethau a fydd yn creu twf yn y dyfodol. Natur yw ein hased mwyaf – mae'n sail i bopeth a wnawn yn awr ac yn y dyfodol, fel cymdeithas. Mae enghreifftiau o wariant cyfalaf yn cynnwys:

- prynu coed brodorol, llwyni a phlanhigion eraill i greu'r lle lleol ar gyfer natur
- prynu offer i adfer a gwella natur. Mae gwariant cyfalaf hefyd yn cynnwys hyfforddiant ar ddefnyddio'r peiriannau a phrynu tanwydd i'w ddefnyddio yn ystod y prosiect
- paratoi safle fel cael gwared ar strwythurau a wnaed gan ddyn i greu lleoedd ar gyfer natur, codi llwybrau newydd (ond nid ailosod), creu ffensys a llwybrau hygyrch i ddiogelu natur, cael gwared ar rywogaethau goresgynnol.
- prynu tir i greu lleoedd ar gyfer natur a mannau gwyrdd hygyrch.
- prynu offer, teclynnau a hadau ac ati i greu ardal tyfu cymunedol
- cynllunio prosiectau, caffael a rheoli costau'r prosiect yn ariannol er mwyn dod â'r ased cyfalaf i fodolaeth hyd at 10% o gyfanswm y gronfa
- cost llafur sy'n gysylltiedig ag unrhyw weithgareddau sy'n gysylltiedig â chreu'r ased naturiol

Gellir defnyddio hyd at uchafswm o **10%** o'r grant cyfalaf hwn i alluogi cyflawni prosiectau. Drwy hyn rydym yn golygu costau cyflawni prosiectau cysylltiedig sy'n eich galluogi i greu'r lle ar gyfer natur megis:

- cynllunio prosiectau
- deunyddiau caffael
- rheolaeth ariannol y prosiect
- casglu a dadansoddi gwybodaeth reoli am gyflawni prosiectau

Peidiwch â chynnwys costau sefydliadol craidd (neu gyfran ohonynt) fel prydles swyddfa, gwresogi, goleuo, TGCh, gan mai'r rhain yw eich costau rhedeg busnes arferol. Efallai na fyddwch yn cynnwys costau parhaus, costau cynnal a chadw, costau hyfforddi a rhedeg eich sefydliad.

Costau gweithgareddau

Gallwch hefyd gynnwys costau sy'n galluogi'r prosiect i gynnwys pobl yn y gwaith o gyflawni a bodloni canlyniad gorfodol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol **y bydd ystod ehangach o bobl yn ymwneud â threftadaeth**. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ein canlyniad gorfodol yn y canllawiau ymgeisio manwl isod.

Gall y costau hyn fod hyd at **15% o gyfanswm** y grant y gwnaed cais amdano.

Gall enghreifftiau o wariant gynnwys:

- digwyddiadau i hyrwyddo'r cynllun lleoedd ar gyfer natur i'r gymuned ehangach, ac i ddatlu cyflawniadau cymunedol
- oriau ychwanegol i gydlynedd gwirfoddol presennol recriwtio, hyfforddi a chefnogi gwirfoddolwyr i gymryd rhan mewn darparu'r lle ar gyfer natur
- arferion da a threuliau gwirfoddoli (yn unol â [chanllawiau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#))
- gweithgarwch hyrwyddo prosiectau

Allwch chi ddim gwario'r arian ar:

- Adennill Cost Llawn - costau craidd y sefydliad
- Cynnal asedau presennol
- gwaith adfer neu amnewid asedau presennol sydd eisoes yn lleoedd ar gyfer natur (er enghraifft gataiau, llwybrau)
- gwaith nad yw'n ymwneud yn bennaf â gwella neu adfer natur fel canolfannau ymwelwyr, dehongli (nid rhaglen fynediad yw hon yn bennaf, rhaid i unrhyw drefniadau mynediad fod yn rhan fach o'r prosiect sy'n seiliedig ar natur yn ei gyfanrwydd)
- ffocws ar blannu coed. Fodd bynnag, gellir cynnwys plannu coed fel rhan o gynllun cyffredinol ehangach.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod clefyd coed ynn yn broblem sylweddol ledled Cymru, ond nid yw'r rhaglen Lleoedd Lleol i Natur yn canolbwyntio ar hyn. Ni fydd y gronfa'n ystyried ceisiadau am brosiectau i dynnu neu reoli clefyd coed ynn yn unig, oherwydd nid yw'n adfer nac yn gwella natur.

Efallai y byddwn yn ystyried prosiectau sydd ag elfen fach o glefyd coed ynn, fel rhan o brosiect ehangach i adfer a gwella natur. Bydd angen i'ch cais ddarparu tystiolaeth gref sy'n dangos cynnydd net i fioamrywiaeth a chreu ecosystemau gwydn.

Expand All accordions

Sut i ymgeisio ar gyfer £10,000–£250,000

1. Ewch [i'n porth ymgeisio](#) a chofrestrwch gyfrif (neu mewngofnodwch os ydych wedi gwneud cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol o'r blaen).
2. cyflwynwch ymholiad e-bost i natur@heritagefund.org.uk fel y gallwch gael adborth gennym ar eich prosiect cyn i chi gwblhau eich cais llawn
3. Pan fyddwch yn barod, cwblhewch a chyflwynwch gais llawn.

Nid oes ffurflen gais benodol ar gyfer Cronfa Gyfalaf Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Dylech ddilyn y cyfarwyddiadau hyn yn ofalus ochr yn ochr â'n nodiadau cymorth ymgeisio [Lleoedd Lleol ar gyfer Natur](#) ac ateb pob cwestiwn yn ein ffurflen gais am grant £10,000 - £250,000.

Expand All accordions

Enwi'ch prosiect

Dechreuwch deitl eich prosiect gyda #NATUR i'n helpu i adnabod eich cais yn gywir. Er enghraifft: #NATUR Blodau Bywyd Gwyllt Abercynon. Mae terfyn o 15 gair.

Expand All accordions

Dangosyddion perfformiad

Bydd angen i chi ddangos sut mae eich prosiect wedi bod o fudd i'r amgylchedd.

Beth sydd angen i chi ei wneud

- Dewiswch y dangosyddion perfformiad sydd fwyaf perthnasol i'ch prosiect o'r rhestr isod.
- Cyflwynwch eich rhestr o ddangosyddion perfformiad (gan gynnwys sut y byddwch yn mesur pob un) fel atodiad i'ch cais.

Os byddwch yn llwyddo i gael grant, bydd y dangosyddion perfformiad hyn yn cael eu cynnwys yn y canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer y prosiect.

Planhigion ac anifeiliaid

Lleoedd ar gyfer natur/cynefin a gaffaelwyd [wedi'u mesur mewn metrau sgwâr]

Lleoedd ar gyfer natur/cynefin wedi'u hadfer neu eu gwella [wedi'u mesur mewn metrau sgwâr]

Walïau/toeau gwyrdd wedi'u creu neu eu gwella [wedi'u mesur mewn metrau sgwâr]

Cysylltedd – coridorau/llwybrau gwyrdd newydd wedi'u creu/gwella [wedi'u mesur mewn metrau]

Gwelliannau pryfed peillio [amcangyfrif o'r nifer]

Cynnydd mewn digonedd o rywogaethau [amcangyfrif]

Rhywogaethau â blaenoriaeth [nifer a rhywogaethau sy'n bwriadu elwa]

D?r

Capasiti ar gyfer gwanhau llifogydd neu dd?r wyneb [wedi'i fesur mewn metrau ciwbig]

Gwell ansawdd d?r

Mynediad i dd?r [nifer y ffynhonnau ail-lenwi/d?r]

Aer

Amcangyfrif o'i ostyngiad mewn CO2 [wedi'i fesur mewn allyriadau cyfatebol]

Gwell ansawdd aer

Tir

Lleihau'r defnydd o blaladdwyr/gwrteithiau [a fesurir yn %]

Tyfu cymunedol [arwynebedd yn ôl metr sgwâr/hectar]

Tyfu cymunedol [nifer y prosiectau]

Mannau cyhoeddus gwyrdd hygyrch wedi'u creu [wedi'u mesur mewn metrau sgwâr]

Gwell manau cyhoeddus gwyrdd hygyrch [wedi'u mesur mewn metrau sgwâr]

Buddion/effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cyfanswm nifer yr hyfforddeiaethau a gyflogir ar y prosiect

Nifer y BBaChau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru y byddwch yn eu contractio/is-gontractio

Amcangyfrif o'r effaith economaidd [wedi'i fesur mewn £]

Gwirfoddolwyr dan sylw [rhif]

Cyfrannodd oriau gwirfoddoli

Gwirfoddolwyr sy'n adrodd am welliant mewn lles o ganlyniad i gynnwys prosiectau [nifer y bobl]

Asedau cymunedol a grëwyd [rhif]

Cyflogeion/ymwelwyr/preswylwyr/goddefwyr) a fydd yn gallu "gweld" yr ased a grëwyd [amcangyfrif o'r nifer mewn un diwrnod]

Newidiadau i'r canllawiau hyn

Byddwn yn adolygu'r canllawiau hyn yn rheolaidd ac yn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr. Rydym yn cadw'r hawl i wneud newidiadau yn ôl y gofyn. Byddwn yn cyfleu unrhyw newidiadau cyn gynted â phosibl drwy'r dudalen we hon.

22 Medi 2023: Mae ceisiadau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur wedi ailagor. Diweddarwyd y dyddiadau cau ymgeisio a'r dyddiadau allweddol. Dilëwyd gwybodaeth sydd wedi dyddio (fel cyfanswm yr ariannu a oedd ar gael) a fu'n ymwneud â rowndiau ymgeisio blaenorol.

6 Hydref 2023: Ychwanegwyd gwybodaeth am y dogfennau ategol y mae angen i chi eu cyflwyno gyda chais i'r gronfa hon at yr adran 'paratoi eich cais'.

19 Rhagfyr 2023: Ychwanegwyd hysbysiad at frig y dudalen, yn nodi nad ydym yn derbyn ceisiadau ar hyn o bryd. Dilëwyd dolenni i'r nodiadau cymorth, a fydd yn cael eu diweddarau ym mis Ionawr 2024. Mae'r geiriad wedi'i newid gan nad oes angen ffurflenni ymholiad prosiect mwyach i wneud cais i'r rhaglen hon.

13 Chwefror 2024: Mae ceisiadau i'r rhaglen hon wedi ailagor. Mae'r nodiadau cymorth ymgeisio wedi'u newid oherwydd bod ein ffurflenni cais wedi newid.

Ariennir y rhaglen ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.



**Cronfa
Treftadaeth**

**Heritage
Fund**



Mewn Partneriaeth â
Llywodraeth Cymru
In Partnership with
Welsh Government